


# Datganiad o bolisi o drwyddedu hapchwarae Canllaw i gynghorwyr

## (Cymru a Lloegr yn unig)

**Mae'n ofyniad cyfreithiol ar bob Awdurdod Trwyddedu i baratoi Datganiad o Bolisi mae'n bwriadu ei arddel wrth ymarfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Hapchwarae 2005.**

**Mae'n rhaid ei adolygu bob 3 blynedd. Mae'n ofynnol ar bob Awdurdod Trwyddedu i gyhoeddi Datganiad diwygiedig ym mis Ionawr 2019. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os gwneir gwelliannau yn ystod y cyfnod o 3 blynedd.**

## Y Ddeddf Hapchwarae 2005

Mae tri amcan trwyddedu o dan y Ddeddf. Cadw trosedd allan o hapchwarae, sicrhau ei fod yn deg ac agored a diogelu plant a phobl fregus arall rhag niwed gan hapchwarae.

Mae 4 egwyddor i ddarparu awdurdod trwyddedu sut i gyflawni ei ddyletswyddau:

- ein codau ymarfer sy'n berthnasol i weithredwyr hapchwarae wedi eu trwyddedu ac i dafarndai a chlybiau
- ein Canllaw i Awdurdodau Trwyddedu
- yr amcanion trwyddedu uchod
- **Eich Datganiad eich hun.**

## Y Datganiad

Swyddogaeth y Datganiad yw adlewyrchu pryderon hapchwarae **lleol penodol** ac i adlewyrchu amcanion strategol ehanghach y Cyngor. Mae defnydd gweithredol o'r Datganiad yn un o'r ffyrdd gallwch wneud eich disgwyliadau o weithredwyr hapchwarae sydd â safleoedd yn eich ardal chi'n glir.

Mae hyn yn caniatau gweithredwyr i ymateb i ofynion lleol penodol ac addasu eu polisïau a threfniadau fel y bo angen. Mae hefyd yn lleihau'r risg o faterion waethygu ac arwain at bwyllgor trwyddedu.

## Ond nid ydym yn cael unrhyw gŵyn!

Mae'n ddigon posibl y gallwch dderbyn ychydig iawn o gwynion am hapchwarae, neu ddim un. Rydych chi'n annhebygol iawn o wneud hynny.



Yn wahanol i feysydd eraill sy'n cael eu rheoleiddio eraill, fel alcohol a chyffuriau, mae hapchwarae'n llawer llai amlwg fel problem i breswylwyr.
Nid yw'r hapchwaraewr sy'n gaeth i gamblo neu'r person o dan 18 sy'n hapchwarae yn annhebygol iawn o gysylltu â chi neu'r Awdurdod Trwyddedu i gwyno.
Mae natur cyd-reoleiddio yn gofyn i'r Awdurdodau Trwyddedu a'r Comisiwn i ymgymryd ag archwilio a gorfodi.
**Oni bai i Awdurdod Trwyddedu gynnal archwiliadau'n rhagweithiol, ni fyddwch yn gweld beth yw'r sefyllfa cydymffurfio.** Yn allweddol, nid oes gennych ffordd o wybod a yw'r amddiffyniadau sydd eu hangen, yn arbennig ar gyfer yr ifanc a'r bregus, mewn lle ac yn gweithio'n effeithiol.

Yn bwysig, oni bai y cynhelir archwiliadau a gorfodaeth, mae'n cosbi'r rhai sy'n cydymffurfio'n annheg.

## Ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol

Mae'r Ddeddf yn dynodi rhestr o awdurdodau mae'n rhaid i chi drafod â nhw (a157). Ynghyd â'r rhai byddech yn eu disgwyl fel yr heddlu, mae'n rhaid i chi gynnwys sefydliad sydd â'i swyddogaethau'n cynnwys diogelu plant rhag niwed. Gallwch ystyried eich **Bwrdd Diogelu**.

Corff arall a all helpu i egluro'r sefyllfa strategol a dull yn ogystal ag egluro'r proffil ardal leol (PAL) yw **Iechyd Cyhoeddus**. O ystyried yr ystod o gyd-afiacheddau cysylltiedig â chaethiwed, mae'n debygol gall rhai sy'n cyflwyno un cyflwr penodol fod yn profi niwed sy'n gysylltiedig â hapchwarae'n ogystal.

## Proffil ardal leol (PAL)




Dylech ddatblygu map gwres' neu broffil ardal leol o'ch ardal o'r cyngor. Nid yw cwblhau PAL yn ofyniad ond mae manteision sylweddol i'r Awdurdod Trwyddedu a busnesau o gael ymwybyddiaeth well o'r ardal leol a'r risgiau (posibl a go iawn).

Mae PAL effeithiol yn debygol o gymryd ystod eang o ffactorau i ystyriaeth, data a gwybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod Trwyddedu a'i bartneriaid yn barod.

## Cyfrifoldebau gweithredwyr hapchwarae

Mae *Amodau trwyddedau a chodau ymarfer* (LCCP) a gyhoeddir gan y Comisiwn yn ffurfioli'r angen i weithredwyr ystyried risgiau lleol.

Mae cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol 10.1.1. yn mynnu fod trwyddedwyr yn asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu trwy'r ddarpariaeth o gyfleusterau hapchwarae ar bob un o'u lleoliadau, a bod â pholisïau, trefniadau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny. Pan fyddant yn cynnal eu hasesiadau o risg, mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth materion perthnasol a nodir yn Natganiad yr Awdurdod Trwyddedu.

Gall awdurdod trwyddedu ofyn bod y trwyddedai'n rhannu copi o'i asesiad risg ei hun a fydd yn gosod allan y mesurau sydd gan y trwyddedai mewn lle i ateb pryderon penodol.

## Sut ariannir rheolaeth hapchwarae?



Byddai busnesau sy'n cydymffurfio ddisgwyl yn gywir i'w ffioedd gael eu talu (yn rhannol) ar fynd ar ôl y rhai nad oedd yn cydymffurfio a'r rhai anghyfreithiol.

Gall Awdurdodau Trwyddedu yng Nghymru a Lloegr osod eu ffioedd hapchwarae eu hunain ond 'byddant yn anelu i sicrhau bod yr incwm o ffioedd … cyn agosed â phosibl yn cyfateb i'r costau o ddarparu'r gwasanaeth mae'r ffioedd yn perthyn'. Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n gosod terfyn uchaf ar gyfer ffioedd safleoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Oni bai gall Awdurdod Trwyddedu ddarparu'r cyfiawnhadau angenrheidiol, lle mae incwm yn fwy na gwariant, neu fel arall, dylid addasu lefelau'r ffioedd fel eu bod yn cydbwyso. Dylid adolygu ffioedd yn flynyddol.**



## Rhagor o wybodaeth

**Mae adran awdurdodau trwyddedu ein safle gwe'n darparu pecynnau cymorth ar y pynciau a nodir uchod yn ogystal ag enghreifftiau o sut mae awdurdodau eraill wedi cyflwyno'u Datganiad.**

# yn cadw hapchwarae'n deg a diogel i bawb

## www.gamblingcommission.gov.uk